Nid ywr ddadl dros safle Tasker Milward wedi'i hennill eto, yn ôl cabinet y cyngor



Yn dilyn adroddiad gan swyddogion a oedd yn argymell bod safle Tasker Milward yn cael ei fabwysiadun ddewis a ffafrir ar gyfer adeiladu ysgol cyfrwng Saesneg newydd yn Hwlffordd, mae Cabinet y Cyngor wedi penderfynu comisiynu gwaith dichonoldeb pellach ar safle Ysgol Syr Thomas Picton cyn cyflwyno ei argymhelliad terfynol ir Cyngor.

Gan annerch y Cabinet, dywedodd y Cynghorydd David Lloyd, yr Aelod Cabinet dros Addysg:

“Rwyn deall cyd-destun argymhelliad yr adroddiad yn llwyr. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y meini prawf cul a ddilynwyd wrth lunior adroddiad, hoffwn i fod rhagor o waith yn cael ei wneud o fewn cyfnod o chwech mis yn benodol i archwilior canlynol:

1) Y goblygiadau o ran cost ac amser syn gysylltiedig ag adeiladu ffordd gyswllt i safle Syr Thomas Picton o gylchfan Scotchwell.

2) Y goblygiadau o ran cost ac amser yn sgil y ffaith bod y ffordd gyswllt yn croesi Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

3) Y gallu i symud yr holl ddisgyblion o safle STP i safle Tasker Milward yn ystod y gwaith o adeiladur ysgol newydd, yn ogystal âr gost, os bydd safle STP yn cael ei fabwysiadu.

“Fodd bynnag, rhaid gosod amod ar gyfer gwneud y fath waith, sef nad ywn peryglur broses o greu ysgol newydd, o ystyried yr amserlenni ar gyfer cyllid Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif,” ychwanegodd y Cynghorydd Lloyd.

Gan gefnogi cynnig y Cynghorydd Lloyd, dywedodd y Cynghorydd Paul Miller: “Yn fy marn i, nid ywr ddadl dros safle Tasker Milward wedii hennill eto. Mae angen inni sicrhau bod y safle iawn yn cael ei ddewis drwyr broses hon ac, er fy mod yn derbyn bod y dadleuon ynghylch costau yn ddilys, nid wyf yn credu bod £2 filiwn ychwanegol ar gyfer ffordd fynediad newydd, yng nghyd-destun ysgol newydd gwerth

£50 miliwn a fydd yn gwasanaethu tref Hwlffordd am y 50 mlynedd nesaf neu fwy, yn ystyriaeth arbennig o berthnasol.

“Rydym eisiaur safle gorau, er mwyn darparur ysgol orau, ac edrychaf ymlaen at dderbyn y wybodaeth bellach y mae fy nghydweithiwr wedi gofyn amdani, fel y dylai.”

Roedd y Cynghorydd David Simpson, Arweinydd Cyngor Sir Penfro, hefyd wedi cefnogir alwad am ymchwiliad pellach i safle Syr Thomas Picton mewn penderfyniad unfrydol gan Aelodaur Cabinet.

ID: 2827, revised 27/11/2017